

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth,  
10fed Mai 2022 yn Neuadd Dihewyd**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Lyn Williams (Cadeirydd), Lynford Thomas, Haf Hughes, Johnny Davies, Alan Henson, Glyn Davies, Gerwyn Owen, Melinda Williams.

Y Cyng. Ceris Jones, Cynghorydd Sir.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Y Cyng. Hywel Ifans, Harry Williams, Dan Evans

**2. PERSONOL**

**3. DATGELU BUDDION PERSONOL**

i. A220229 : Clos Megan, Felinfach, Lampeter. SA48 7PG

Y Cyng. Lynford Thomas yn unol â rheol y Cod Ymddygiad 3.15 a'r Cyng. Melinda Williams yn unol â rheol y Cod Ymddygiad 12.1 a 12.3

Datganwyd yn y cyfarfod a chwblhawyd y ffurflen datgan busddiannau. Ymadawodd y Cynghorwyr â'r ystafell cyn i'r Cyngor wneud penderfyniad.

**4. CYNLLUNIO**

i. A220229 : Clos Megan, Felinfach, Lampeter. SA48 7PG

Yn unol â hawl y Cadeirydd i newid trefn yr Agenda, trafowdwyd Rhif 8 yn gyntaf I ganiatau aelod o'r cyhoedd i gyflwyno sylwadau am y datblygiad. Cyflwynodd Mr. Graham Evans bryderon rhai o drigolion Ystrad Aeron am yr effaith y mae'r adeiladu yn cael ar yr amgylchedd a chododd nifer o gwestiynau parthed effaith yr adeiladu ar draffig, bywyd gwyllt a chynllun y tai, ymysg pethau eraill.

Derbyniwyd hefyd lythyr gan Robin a Sophie Upton yn gofyn ar i'r Cyngor Cymuned i gael sicrwydd gan y datblygwr na fydd gwaith y tu allan i'r oriau a ganiateir ar safle adeiladu yn digwydd gan fod hyn wedi bod yn broblem yn y gorffennol.

Yn dilyn trafodaeth hir a chynhwysfawr penderfynwyd cefnogi'r cais cynllunio gyda'r gan nodi ein bod yn dymuno derbyn atebion i'r cwestiynau a roddwyd gerbron yn y cyfarfod gan nodi hefyd ein siom na gymerwyd I ystyriaeth ein sylwadau blaenorol am fynedfa'r tai newydd.

Penderfynwyd ysgrifennu'n uniongyrchol at Mr D. Edwards yn gofyn iddo am barchu'r rheol gwaithio y tu allan i oriau arferol.

Cynigiwyd gan y Cyng. Haf Hughes ac eiliwyd gan y Cyng, Gerwyn Owen,

## 5. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 12fed Ebrill yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Gerwyn Owen ac eilwyd gan Y Cyng Lynford Thomas.

## 6.. MATERION YN CODI

8vi. **Gweithgor Dyffryn Aeron.** Dim newid

11ii **Bocsus Blodau.** Mae 8 bocws yn eu lle. Bydd 2 focws Cribyn yn cael eu gosod pan fydd y gwaith ar y wal ger Y Mynach yn cael ei gwblhau. Yn dilyn ymholiad gan aelod o'r Cyngor am y bocws, trwy'r Cyng. Haf Hughes, **penderfynwyd** rhoi adroddiad yn Llais Aeron, pan fydd y bocws y neu blodau, yn rhoi cefndir y penderfyniad i brynu'r bocws.

## 7. CYLLID

- I. Tâl y Clerc am fis Ebrill £199.41
- II. Trafodwyd yr yswiriant (Zurich) yn yr AGM

## 7. ADRODDIAD HYFFORDDIANT Y COD YMDDYGIAD

Trafodwyd yn yr AGM a chynhaliwyd hyfforddiant yn yr AGM

## 8. GOHEBIAETH

I. **Derbyniwyd llythyr gan** Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau Cyngor Sir Ceredigion yn nodi bod angen penodi dau gynhgorydd i'r Pwyllgor Moesega Safonau ac yn gofyn am enwau unrhyw un sydd â diddordeb. Cyniigiwyd enw'r Cyng. Melinda Williams. Bydd y Clerc yn anfon y manylion ymlaen i'r Swyddog Craffu a Safonau.

## 9. UNRHYW FATER ARALL

i. **Ysgol Cribyn.** Mae'r Ysgol ar gael ar gyfer cynnal cyfarfodydd yn dilyn y cyfnod clo pan nad oedd hi'n bosib defnyddio'r adeilad oherwydd rheolau'r Cyngor Sir. **Penderfynwyd** yn unfrydol cynnal y cyfarfod nesaf yn yr Ysgol ac yna yn y drefn arferol o hynny ymlaen.

ii. **Deffibs.** Codwyd cwestiwn gan y Cyng. Haf Hughes am yswirio'r deffibs. **Penderfynwyd** y byddai'r Clerc yn gwneud ymholiadau.

iii. **Pont Creuddyn.** Yn dilyn llythyr a dderbyniwyd gan un o drigolion Pont Creuddyn parthed y bocws blodau, gofynnodd y Cyng. Ceris Jones a oedd cynlluniau ar y gweill i osod bocws yno. Yn dilyn trafodaeth, **penderfynwyd** y byddwn yn rhoi ystyriaeth i ardaloedd eraill wrth drafod y gyllideb nesaf a chynnal trafodaethau gydag Adran y Priffyrdd i adnabod lleoliadau addas.

10. **DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF.** 14eg Mehefin, 2022

